

Mae'r farchnad Bwyd i Fynd yn werth £1.7bn yn 2016. Mae marchnad Bwyd i Fynd Cymru'n dirywio drwyddi draw, gan ostwng 1.2%, gyda gostyngiad mewn cyfaint prynu yn gwrthwneud cynnydd yn sgil amllder uwch. Nid yw cynnyrch premiwm, sy'n gyrru twf yng ngweddill Prydain, yn gweld yr un cynnydd ym marchnad Cymru

Mae marchnad Allan o'r Cartref Cymru'n tyfu'n gryf, 7.8% yn uwch y flwyddyn, sydd lawer yn uwch na gweddill Prydain, welodd dwf o 3.4%. Serch hynny, mae llawer o'r twf yn cael ei yrru gan adwerthwyr gwasanaeth bwyd (tafarndai, gwestai, bwytai) gydag amllder ac uned pris yn cynyddu, gan yrru twf drwyddi draw i 23% y flwyddyn. Yn wahanol, nid yw gweddill yr adran bwyd i fynd (sy'n 60% o'r sector Allan o'r Cartref) er yn gweld cynnydd mewn amllder, wedi gweld yr un cynnydd mewn prisiau uned, gan olygu fod gostyngiad mewn treiddiad a chyfaint wedi gwrthwneud y cynnydd trwy siopa'n amlach.

Mae cynnydd mewn prisiau'n cael ei yrru gan bedair agwedd allweddol:

- Chwyddiant ar yr un cynnyrch (e.e. can o 'diet coke' 3% yn ddrytach na'r llynedd)
- Troi at gategoriâu drytach (e.e. arweiniodd newid o ddiodydd poeth i ddiodydd oer at gynnydd o £13m mewn gwariant ym Mhrydain)
- Newid sianel adwerthu (prynu o safleoedd drytach, e.e. garej i siop goffi)
- Dewis cynnyrch premiwm (e.e. ffrwythau wedi'u paratoi yn lle ffrwythau cyfan)

Drwyddi draw y llynedd, arweiniodd cynnydd mewn pris uned at gynnydd o £931m mewn gwariant ym marchnad Bwyd i Fynd gweddill Prydain, o'i gymharu â £0.9m yng Nghymru.

Mae Cymru'n tanwario mewn safleoedd ac eithrio gwasanaeth bwyd o'i gymharu â Phrydain (59% o'i gymharu â 61%), ac mae hyn yn fwyaf amlwg mewn siopau Bara a Brechdanau a Bwytai Cyflym cadwyni Bach ac Annibynnol. Gwelodd y meysydd hyn hefyd ostyngiad mewn gwariant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae edrych ar fanylion gwariant y sianeli hyn yn dangos fod siopau Bara a Brechdanau wedi profi cynnydd yn eu marchnad graidd o brydau cyflym a byrbrydau melys,

ond gostyngiad mewn gwariant ar ddiodydd porth a byrbrydau sawrus. Mewn Bwytai Cyflym Cadwyni Bach, roedd pryddau cyflym i fyny a phrif brydau i lawr.



Mae safleoedd Gweithle ac Addysg yn bwysicach yng Nghymru na gweddill Prydain, gan gyfrif am 7% o werthiant o'i gymharu â 5% ym Mhrydain. Yma, mae pryddau cyflym yn bwysig, gan gyfrif am 35% o werthiant, tra bo byrbrydau'n llai pwysig, gan gyfrif am 11% o werthiant, o'i gymharu â chyfartaledd Bwyd i Fynd Cymru o 17%. Gwelodd y sianel dwf ym mhob ystod cynnyrch allweddol yn y 32 wythnos at Ionawr 2017.

Mae siopau coffi'n sianel bwysig, gan gyfrif am 20% o werthiant yn y farchnad bwyd i fynd, ac yn tyfu. Ym Mhrydain, mae yfed coffi'n tyfu'n gryf (8.9% y flwyddyn) ac mae defnyddwyr Cymru yn dilyn cyfartaledd Prydain, gan ei gwneud yn farchnad gwerth £350m yng Nghymru. Mae bron i draean (31%) achlysuron coffi Cymru yn cynnwys prynu rhywbeth arall, gyda 14% yn cynnwys byrbryd melys a 14% yn cynnwys pryd cyflym. Mae twf mewn yfed coffi yn gyrru gwariant mewn categorïau eraill.